Gorffennaf 2005

Nodyn Briffio

Ffordd i ddistryw hinsawdd

Friends of the Earth Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

Ym mis Rhagfyr 2004 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bwriad i adeiladu traffordd chwe lôn 14 milltir o hyd i'r de o Gasnewydd yn ne Cymru. Cynigir y draffordd i leihau tagfeydd a ragwelir ar yr M4 bresennol i'r gogledd o'r ddinas. Byddai'n torri drwy Wastadeddau Gwent harddwych - safle bywyd gwyllt cenedlaethol bwysig a thirwedd hanesyddol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn honni y gellid ei hadeiladu am tua £350 miliwn a fyddai'n cael ei godi drwy godi tâl ar bobl i ddefnyddio'r ffordd newydd.

Mae adeiladu ffyrdd newydd mawr yn arwain at gynnydd mewn traffig sy'n arwain at ragor o allyriadau carbon deuocsid (CO_2) - y prif nwy sy'n gyfrifol am gynhesu byd-eang. Mae mwy o draffig hefyd yn golygu mwy o alw am olew, mwy o lygredd aer a dirywiad mewn iechyd, diogelwch ar y ffyrdd a lefelau ffitrwydd oedolion a phlant.

Mae ffyrdd newydd hefyd yn debygol o achosi mwy o dagfeydd ar y rhwydwaith ffyrdd cyfagos (byddai Ffordd Liniaru'r M4 yn achosi mwy o dagfeydd yng Nghaerdydd a'r cyffiniau ac yn y Cymoedd). Mae yna ffyrdd o ddatrys tagfeydd traffig sydd hefyd yn rhoi dewis i'r bobl i deithio heb gar.

Beth newid hinsawdd?

Mae'r prif wyddonwyr yn cytuno - mae newid hinsawdd yn rhywbeth gwirioneddol, ac mae'n digwydd. Mae'r byd yn mynd yn gynhesach ac mae'r tywydd yn mynd yn fwy eithafol. Mae rhagor o sychder, stormydd a llifogydd ar eu ffordd. Mae'n ganlyniad uniongyrchol llosgi mwy a mwy o danwyddau ffosil ar gyfer defnydd cynyddol o ynni. Mae'r carbon deuocsid (CO_2) sy'n cael ei ryddhau yn cadw gwres yr Haul yn yr atmosffer gan achosi effaith tŷ gwydr. Mae lefelau CO_2 heddiw draean yn uwch nag yr oeddent cyn y chwyldro diwydiannol.

Gyrru allyriadau i fyny

Ar hyn o bryd mae cludiant ffordd yn gyfrifol am tua 22 y cant o allyriadau'r DU o CO_2. Mae yna nawr 28 miliwn o gerbydau ar ffyrdd y DU. Tra bod allyriadau o ddiwydiant a chartrefi yn dangos peth gostyngiad, mae allyriadau o gludiant ffordd wedi bod yn cynyddu'n sylweddol. Yn waeth fyth, bydd allyriadau cludiant yn codi yn y blynyddoedd sydd i ddod wrth i ni wneud mwy o siwrneiau mewn ceir ac awyrennau.

Beth yw'r ateb?

Mae ffordd allan o'n hargyfwng cludiant: rydym angen llai o drafnidiaeth ar ein ffyrdd a llai o dwf mewn hedfan. Mae pobl angen dewisiadau gwirioneddol ynglŷn â sut i deithio fel nad oes yn rhaid iddynt ddefnyddio cymaint ar eu ceir. Nid yw hyn yn golygu cefnu ar y car - byddant yn dal yn ddewis synhwyrol ar gyfer rhai siwrneiau. Mae rhoi dewisiadau gwirioneddol yn golygu buddsoddi

---

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol, sy'n gwneud bywyd yn well i bobl

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- **yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru**
- **yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG**
- **yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir**
- **yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru**
- **yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm**

I ymuno neu wneud cyfraniad, ffoniwch ni ar 0800 581 051

Cyfeillion y Ddaear Cymru, 33 Oriel Arcêd y Castell, Caerdydd, CF10 1BY
Ffôn 029 2022 9577 Ffacs 029 2022 8775 Ebost cymru@foe.co.uk Gwefan www.cyddcymru.co.uk

Cyfeillion y Ddaear Cyfyngedig Cofrestrwyd yn Llundain Rhif 1012357, Swyddfa Gofrestredig 26-28 Underwood Street Llundain N1 7JQ
Argraffwyd ar bapur wedi ei wneud yn llwyr o wastraff defnyddwyr

mwy mewn gwella cludiant cyhoeddus - ei wneud yn ddiogelach, yn fwy effeithlon, yn fwy dibynadwy ac yn fwy fforddiadwy. Ers 1997 mae cost moduro wedi gostwng mewn termau gwirioneddol gan 6.6 y cant tra bod prisiau teithiau rheilffordd wedi codi gan bron i 4 y cant a theithiau bws gan dros 10 y cant.

Dylai pobl hefyd allu prynu a defnyddio ceir sy'n llygru llai. Mae hyn yn golygu cael gweithgynhyrchwyr i adeiladu cerbydau ynni effeithlon a rhoi mwy o wybodaeth ac ysgogiadau treth i brynwyr ceir. Dylid hefyd ymchwilio i ddefnydd o danwyddau eraill, megis biodanwyddau y gellir ei gynhyrchu o olew llysiau.

Nid adeiladu ffyrdd yw'r ffordd ymlaen

Yn hytrach na gosod targedau clir i ostwng nifer y siwrneiau a wneir mewn ceir yng Nghymru bwriada Llywodraeth Cynulliad Cymru wario miliynau o bunnoedd o arian trethdalwyr ar adeiladu ffyrdd newydd. Mae'r draffordd arfaethedig i'r de o Gasnewydd yn enghraifft dda o hyn, er bod ffyrdd newydd mawr hefyd wedi eu cynllunio ar gyfer ardaloedd megis Rhydaman, Bargoed, Porth Talbot a'r Rhondda.

Dylai problemau tagfeydd o amgylch Casnewydd gael eu datrys drwy welliannau i gludiant cyhoeddus a mesurau eraill i annog pobl o'u ceir. Gallai bwriadau Llywodraeth y DU i godi arian ar yrwyr i deithio ar rannau o ffyrdd sydd yn llawn iawn helpu i berswadio pobl i osgoi teithio ar amseroedd prysur a chael gwared ar y syniad sydd gan bobl bod angen rhagor o adeiladu ffyrdd. Bydd y mesurau hyn, ynghyd ag eraill, yn helpu i ddatrys problemau cludiant Cymru.

Caiff adeiladu ffyrdd ei bortreadu yn aml fel rhywbeth angenrheidiol i greu swyddi a hybu'r economi. Yn wir, yn aml gall adeiladu ffyrdd niweidio economïau lleol drwy ei gwneud yn haws i gymunedau dderbyn gwasanaethau o bell. Wrth i fwy o ffyrdd gael eu hadeiladu mae siopau, hufenfeydd a swyddfeydd post lleol wedi cau. Mae hyn yn dinistrio swyddi lleol ac yn ei gwneud hi'n anodd i bobl heb geir gael mynediad at wasanaethau. Nid oes gan draean o bobl Cymru ddefnydd car - yn arbennig yr henoed a phobl ifanc, merched a'r rheini ar incwm isel.

Hedfan

Mae hedfan wedi dod yn un o'r ffynonellau o nwyon newid hinsawdd sy'n tyfu gyflymaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnig cyswllt awyr rhwng gogledd a de Cymru ac mae'n cefnogi codi rhedffyrdd a therfynellau meysydd awyr newydd er mwyn pery i hyn ddigwydd. Mae'n syniad gwallgof ynglŷn â hedfan sy'n digwydd ledled y DG, gan arwain at dwf anferth mewn hedfan sydd ddim ond yn bosibl oherwydd nad yw cwmnïau awyrennau yn talu unrhyw dreth ar y tanwydd a ddefnyddiant ac nad ydynt yn talu dim TAW ar sawl agwedd o'u gweithrediadau. Mae'r difrod a achosir gan y swm o fwyd a chynnyrch defnyddwyr sy'n cael ei hedfan o gwmpas y byd angen ei leihau. Mae prynu'n lleol yn cefnogi'r economi leol ac yn torri llygredd.

Beth ellir ei wneud am y peth?

Mae llawer y gellid ei wneud i rwystro a gwrth-droi'r cynnydd mewn allyriad y nwyon sy'n newid yr hinsawdd. Rhaid rhoi llawer mwy o bwyslais ar fesurau arbed ynni, systemau ynni adnewyddadwy (megis gwynt, solar a phŵer llanw) a systemau cludiant cyhoeddus da. Mae gan y system gynllunio rôl i'w chwarae mewn sicrhau bod newid hinsawdd yn cael sylw drwy, er enghraifft, sicrhau fod pobl yn gallu gweithio, siopa a mwynhau cyfleusterau hamdden yn agos i'w cartrefi - gan leihau'r angen am deithio gormodol.

Ymunwch â'r Her Fawr

Mae ymgyrch Yr Her Fawr Cyfeillion y Ddaear yn helpu pobl sy'n poeni am newid hinsawdd i bwyso ar eu Haelodau Seneddol i basio deddf sy'n gorfodi Llywodraeth y DU i wneud toriadau blynyddol o 3 y cant mewn allyriadau CO_2 blwyddyn ar ôl blwyddyn.

- Mae angen i Lywodraeth y DU weithredu yn awr i leihau allyriadau carbon deuocsid - o gynhyrchiad trydan, o gludiant ac o ddiwydiant. *Ymunwch ag ymgyrch newid hinsawdd Yr Her Fawr i ofyn i'r llywodraeth ddechrau gweithredu ar newid hinsawdd.*
- Gallwch hefyd weithredu yn eich cartref neu'ch swyddfa drwy arbed ynni a chefnogi mentrau ynni adnewyddadwy, osgoi teithiau awyr a cheir diangen a phrynu'n lleol. *Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.foecymru.co.uk.*